DSA
DRIVING STANDARDS AGENCY
SAFE DRIVING FOR LIFE

GYRRU ECO-DDIOGEL...

CANLLAWIAU AR GYFER GYRRU/ BEICIO'N DDIOGEL YN ECONOMAIDD

Profwyd a chydnabuwyd bod gyrru/beicio Eco-ddiogel yn ddull o yrru sy'n cyfrannu at ddiogelwch ar y ffyrdd wrth ostwng lefel y draul a gollyngiadau tanwydd. Petaech chi'n gwneud y newidiadau hyn, gallech leihau eich bil tanwydd.

Mae cerbydau ar y ffyrdd heddiw'n cyfrannu at newid hinsawdd oherwydd y carbon deuocsid (CO_2) mae'r injan yn ei gynhyrchu. Mae gostwng lefel y gollyngiadau hyn yn llawer haws nag yr ydych chi'n ei feddwl. Drwy ddilyn y canllawiau gyrru eco-ddiogel hyn byddwch chi nid yn unig yn well gyrrwr, ond gallech hefyd ostwng y cyfaint o CO_2 y mae eich cerbyd yn ei ollwng. Bydd hyn yn arbed arian i chi.

AWGRYMIADAU AR GYFER GYRRU ECO-DDIOGEL

DYLECH GANFOD PERYGLON A CHYNLLUNIO EICH DYNESIAD

Cofiwch ganfod peryglon yn gynnar gan ganiatáu digon o amser i ymateb - bydd hyn yn golygu y byddwch chi'n brecio ac yn cyflymu'n llyfn ac yn gynyddol. Gadewch le o gwmpas eich cerbyd a gyrrwch yn dawel.

CEISIWCH OSGOI GWNEUD I'CH INJAN GYLCHDROI'N ORMODOL

Ceisiwch osgoi gwneud i'ch injan gylchdroi'n ormodol wrth ddechrau'r cerbyd a symud i ffwrdd.

DEFNYDDIWCH Y CYFLYMDER PRIODOL AR GYFER POB CYFLWR FFORDD

Sicrhewch fod eich cyflymder yn briodol i'r ffordd, y drafnidiaeth a'r tywydd. Ystyriwch sut gall cyflymder amhriodol effeithio ar draul a gollyngiadau tanwydd.

PEIDIWCH Â BOD YN RHY DRWM AR Y SBARDUN

Defnyddiwch y sbardun yn llyfn ac yn gynyddol. Pan fydd yn briodol, tynnwch eich troed oddi ar y sbardun a gadewch i fomentwm y cerbyd ei symud ymlaen. Ceisiwch osgoi pwmpio'r sbardun gan fod hyn yn defnyddio mwy o danwydd.

DEFNYDDIWCH Y GÊR UCHAF POSIBL

Nid yw bob amser yn angenrheidiol i fynd i fyny ac i lawr drwy bob gêr; ceisiwch neidio gêr. Cynted ag y bydd amodau'n caniatáu, defnyddiwch y gêr uchaf posibl, heb wneud i'r injan ddioddef.

YSTYRIWCH DDIFFODD EICH INJAN PAN FYDD Y CERBYD YN LLONYDD

Pan fyddwch ynghanol traffig neu'n aros am rywun, mae'r injan yn segura felly rydych chi'n gwastraffu tanwydd ac yn ychwanegu at ollyngiadau CO_2. Os ydych chi'n debygol o fod yn llonydd am dipyn o amser, diffoddwch eich injan.

DSA
DRIVING STANDARDS AGENCY
SAFE DRIVING FOR LIFE™

Yr Asiantaeth Safonau Gyrru

Mae'r DSA yn hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd drwy osod safonau i yrwyr, beicwyr a hyfforddwyr, gan brofi gyrwyr a beicwyr yn deg ac yn effeithlon. Mae'r asiantaeth yn cadw cofrestrau Hyfforddwyr Gyrru Cymeradwy, Hyfforddwyr Cerbydau Nwyddau Mawr, Hyfforddwyr Fflyd, Cyfarwyddwyr Hyfforddwyr Gyrru a Hyfforddwyr Beiciau Modur ôl-Brawf. Hefyd, mae'n goruchwylio Hyfforddiant Sylfaenol Gorfodol (CBT) ar gyfer beicwyr modur dan hyfforddiant ac yn darparu adnoddau addysg a dysgu gyrwyr.

Gwybodaeth bellach

Gellir cael hyd i hyn i gyd yng nghyhoeddiadau'r DSA neu ar **www.direct.gov.uk/ecosafedriving**

I gael mwy o wybodaeth am yrru gwell a phrynu cerbyd sy'n effeithlon o safbwynt tanwydd, gallwch fynd i ACTONCO2
www.dft.gov.uk/ActoncO2/

Yr Asiantaeth Safonau Gyrru
The Axis Building, 112 Upper Parliament Street
Nottingham NG1 6LP
0300 200 1122
customer.services@dsa.gsi.gov.uk

UK

An executive agency of the Department for ***Transport***

ECO-SAFE DRIVING
SAFE DRIVING FOR ECONOMY

RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
Safon y Llywodraeth

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
The Government Standard

ACT ON CO2

INVESTORS IN PEOPLE